



Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn
<https://gov.wales/topics/planning/appeals/?skip=1&lang=cy>

APÊL HYSBYSIAD CANIATÂD HYSBYSEBU A DIRWYN HYSBYSEBU I BEN

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â'n Llinell Gymorth ar 0303 444 5940. **I'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon yn gywir, cyfeiriwch at ein Canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru.**

RHYBUDD: Mae'n rhaid i'ch apêl gyrraedd yr Arolygiaeth Gynllunio o fewn 8 wythnos o ddyddiad hysbysiad o benderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) neu cyn y dyddiad y daw'r Hysbysiad Dirwyn i Ben i rym. (SYLWER: Os na dderbyniwn unrhyw un o'r "Dogfennau ategol hanfodol" a restrir yn Adran Ff o fewn y cyfnod apelio, ni fydd yr apêl yn cael ei derbyn)

YSGRIFENNWCH YN GLIR MEWN LLYTHRENNAU BRAS GAN DDEFNYDDIO INC DU

A. APELYDD – Mae'n rhaid i'r unigolyn/unigolion a enwir sy'n cyflwyno'r apêl ymddangos fel ymgeisydd ar y ffurflen gais neu fod wedi cael Hysbysiad. Os nad yw hyn yn wir, ni ellir cofrestru'r apêl.

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	

B. ASIANT (os oes un) AR GYFER YR APÊL

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Rhif Cyfeirnodn	

C. AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL (ACLI)

Enw'r ACLI	
Rhif cyfeirnod yr ACLI	
Dyddiad y ffurflen gais	
Dyddiad Hysbysiad o Benderfyniad yr ACLI (os cafodd ei gyhoeddi)	
Dyddiad y daw'r Hysbysiad Dirwyn i	

Ben i rym	
-----------	--

CH. CYFEIRIAD SAFLE'R APÊL

Cyfeiriad	
Cod Post	

	OES*	NAC OES
A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar neu ger y safle y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle? <i>*Os oes, esboniwch yn eich datganiad llawn o'r achos (adran E)</i>		

	BYDDAI	NA FYFFAI
A fyddai'r Arolygydd yn gallu gweld y rhannau perthnasol o safle'r apêl yn ddigonol i farnu ynglŷn â'r cynnig o dir cyhoeddus?		
	YDYW*	NAC YDYW
A yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau eraill perthnasol? <i>*Os 'BYDDAI'/'YDYW' yw'r ateb, esboniwch isod</i>		

SYLWER: Fel arfer, bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun heb y naill barti na'r llall. Ond, os na ellir gweld y rhan berthnasol o'r safle o'r ffordd neu dir cyhoeddus arall, neu os yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau eraill perthnasol, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu i'r Arolygydd gael mynediad.

D. DISGRIFIAD O'R HYSBYSEB(ION)

Rhowch fanylion yr hysbyseb(ion) arfaethedig, gan esbonio'r disgrifiad, y mesuriadau a'r lliwiau, gan gynnwys manylion goleuadau (os oes rhai). Fel arfer, dylai'r manylion hyn gael eu cymryd o'r ffurflen gais, ond os diwygiwyd y cais tra oedd yn cael ei ystyried gan yr ACLI, cewch roi disgrifiad o'r cynllun diwygiedig. Amgawch gopi o gytundeb yr ACLI i'r newid.

	YDYW	NAC YDYW
A yw'r disgrifiad o'r datblygiad wedi newid o hwnnw a gofnodwyd ar y ffurflen gais?		
A yw'r datblygiad yn effeithio ar leoliad adeilad rhestredig?		
A yw safle'r apêl o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol?		

A yw'r safle o fewn ardal gadwraeth?		
A yw'r safle o fewn llain las/lletem las?		

DD. RHESWM DROS YR APÊL

Mae'r apêl hon yn erbyn:


Ticiwch fel y bo'n berthnasol

1.	Penderfyniad yr ACLI i wrthod rhoi caniatâd ar gyfer yr hysbyseb(ion)	
2.	Penderfyniad yr ACLI i roi caniatâd ar gyfer yr hysbyseb(ion) yn ddarostyngedig i amod yr ydych yn ei wrthwynebu	
3.	Penderfyniad yr ACLI i gyhoeddi hysbysiad Dirwyn i Ben	
4.	Methiant yr ACLI i roi gwybod am ei benderfyniad ynglŷn â'r cais am ganiatâd o fewn y cyfnod priodol (8 wythnos fel arfer)	

E. DATGANIAD LLAWN O'R ACHOS

Dyma eich **unig** gyfle i gyflwyno'ch achos mewn cysylltiad â'r rheswm dros yr apêl, fel y'i nodir yn adran DD. Felly, rhowch eich datganiad **LLAWN** o'r achos. I wneud hyn, bydd angen i chi fynd trwy'r rhesymau dros y penderfyniad/hysbysiad, ac esbonio pam rydych chi'n anghytuno. Dim ond y rhesymau ym mhenderfyniad/hysbysiad yr ACLI a'r rhesymau a gyflwynwyd gennych chi ar y cam ymgeisio a ddylai gael eu cynnwys ar eich ffurflen apêl. Ni ddylech gyflwyno unrhyw resymau newydd dros yr apêl. Cyfeiriwch at ein Canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru am ragor o wybodaeth.

Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen



F. COSTAU (gweler y canllawiau am ragor o wybodaeth)

	YDW	NAC YDW
A ydych chi'n bwriadu cyflwyno cais am gostau gyda'r apêl hon? <i>Os ydych, rhowch eich achos isod</i>		
Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen		

FF. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL

Gan ddibynnu ar y math o apêl, mae'n rhaid i'r dogfennau a restrir isod gael eu hanfon gyda'ch ffurflen apêl. Os na fyddwn yn derbyn eich holl ddogfennau apêl erbyn diwedd y cyfnod apelio, ni fyddwn yn ymdrin â hi.

Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau rydych chi'n eu hamgáu.

**Apeliadau yn erbyn Gwrthodiad/Methiant/Amodau**

1	Copi o'r ffurflen gais a anfonwyd at yr ACLI sydd wedi arwain at yr apêl hon	
2	Yr holl gynlluniau a manylion perthnasol a gyflwynwyd i'r ACLI	
3	Copi o hysbysiad o benderfyniad yr ACLI (os cafodd ei gyhoeddi)	
4	Unrhyw ohebiaeth berthnasol â'r ACLI	
5	Os yw'r apêl yn erbyn methiant yr ACLI i benderfynu ar gais, darparwch gopi o lythyr yr ACLI sy'n cofrestru eich cais	

Apeliadau yn erbyn Hysbysiad Dirwyn i Ben

6	Yr Hysbysiad Dirwyn i Ben a gyflwynwyd gan yr ACLI	
7	Unrhyw hysbysiad o amrywiadau	
8	Unrhyw ohebiaeth berthnasol â'r ACLI	

Manylion Personol (*ni fydd y rhain ar gael yn gyhoeddus*)

1. Manylion personol yr apelydd

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif ffôn yn ystod y dydd	
E-bost	

	Cymraeg	Saesneg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Cysylltwch â mi drwy		

1. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (*os oes un*)

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif ffôn yn ystod y dydd	
E-bost	

	Cymraeg	Saesneg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Cysylltwch â mi drwy		



Mae'r data personol a roddir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei gasglu a'i brosesu yn unol â thelerau ein cofrestrriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar gael ar ein gwefan yn yr adran "Polisi Preifatrwydd" (http://planninginspectorate.wales.gov.uk/privacy_policy)

Llofnodwch y ffurflen ar Dudalen 7

LLOFNODWCH ISOD (mae'n rhaid i ni dderbyn ffurflenni wedi'u llofnodi a'r holl ddogfennau ategol o fewn y cyfnod apelio)

Rydw i'n cadarnhau fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen apel hon a'r holl ddogfennau perthnasol at yr ACLI (os na fyddwch yn gwneud hyn, ni fydd eich Apêl yn cael ei derbyn, fel arfer).

Rydw i'n cadarnhau bod pob rhan wedi cael ei llenwi'n llawn hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rydw i'n deall y gallech ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y gallai manylion gan gynnwys fy enw, disgrifiad o'r safle a'm datganiad o'r achos ymddangos ar y Porth Gwaith Achos Apeliadau. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rydw i'n cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn.

Llofnod:

Enw (mewn priflythrennau)

Ddydiad

Ar ran (os yw'n berthnasol)

ANFON

Anfonwch 1 COPI atom ni yn:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: cymru@pins.gsi.gov.uk

Llinell gymorth: 0303 444 5940

Anfonwch 1 COPI at yr ACLI

Anfonwch gopi o'r ffurflen apel i'r cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad o benderfyniad ohono (neu i'r cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd oddi wrth yr ACLI).

Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol at yr ACLI eto – dim ond unrhyw ddogfennau ategol na anfonwyd yn flaenorol yn rhan o'r cais.

Cadwch gopi ar gyfer eich cofnodion

Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen apel, byddwn yn ysgrifennu atoch gan roi gwybod i chi a yw'ch apel yn ddilys, pwy sy'n ymdrin â hi a beth fydd yn digwydd nesaf.

© Hawlfraint y Goron 2017

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad uchod neu drwy neges e-bost at: cymru@pins.gsi.gov.uk